Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Hwyl a Sbri Bancyfelin**

**Ysgol Bancyfelin**
**Stryd Fawr**
**Bancyfelin**
**Caerfyrddin**
**SA33 5ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

1/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Hwyl a Sbri Bancyfelin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Person cofrestredig | Samantha John<br>Katie Topliss |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da ar gyfer chwarae a hamdden, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau ac yn angerddol am eu gwaith. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn dda. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cynorthwyo'r plant i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae ystod dda o deganau, offer ac adnoddau yn hyrwyddo chwarae'r plant yn dda. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu'r gofal a ddarperir. Maen nhw'n defnyddio hunanwerthuso yn effeithiol i nodi a gwneud gwelliannau. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda a'u diweddaru am brofiadau eu plentyn, ac mae'r cydberthnasau a ddatblygir gyda theuluoedd yn hanfodol i ansawdd y cymorth a ddarperir gan y lleoliad.

## Llesiant | Da

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn. Mae pob ymgais i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi. Mae'r staff yn ystyriol iawn o farn y plant ac yn ymwybodol o'r angen i roi opsiynau a dewisiadau i'r plant. Gall y plant symud o gwmpas yn rhydd dan do ac maent yn cael cyfleoedd i fynd i'r ardal awyr agored gyda'r staff.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Maent yn datblygu perthynas gyda'r plant eraill a'r staff yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Gwelsom blant yn chwerthin ac yn gwenu wrth iddynt chwarae. Mae'r plant hefyd yn gyfforddus yn arferion a gweithgareddau cyfarwydd y lleoliad. Er bod rhai plant yn ansefydlog ar adegau, mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi ymgartrefu'n dda iawn ac yn fodlon trwy gydol y dydd.

Mae'r plant yn dysgu cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu, yn unol â'u hoedran a'u gallu. Roedd yn amlwg bod awyrgylch hamddenol y lleoliad hwn yn cael effaith gadarnhaol a gwych ar allu'r plant i reoli eu hymatebion a'u hymddygiad. Gwelsom hefyd lawer o enghreifftiau o blant yn ymddwyn yn garedig ac yn ystyriol. Gofynnodd plentyn i un arall a allai roi cynnig ar sgwter yr oedd yn ei ddefnyddio. Penderfynwyd rhyngddynt y byddai ganddynt gyfnod penodol o amser ar y sgwter.

Mae gan blant y rhyddid i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n wirioneddol addas iddyn nhw a'u hanghenion. Mae pob un o'r plant yn mwynhau'r gweithgaredd o'u dewis. Roedd un plentyn yn mwynhau chwarae'n annibynnol yn fawr ac roedd eisiau ei le ei hun. Roedd hyn yn cael ei barchu. Gwelsom blant hŷn yn chwarae rôl gyda phlant iau, gan ddefnyddio doliau ac offer amrywiol. Gall y plant ddilyn eu diddordebau eu hunain yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i gynllunio. Ar ddiwrnod yr ymweliad, buont yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgaredd paentio. Mae llais y plant yn cael ei gydnabod os nad ydynt am gymryd rhan yn y gweithgaredd paentio. Roedd y plant yn fodlon iawn drwy gydol yr ymweliad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn effeithiol yn eu swyddi. Maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac mae ganddynt wybodaeth dda am sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Siaradant yn briodol am weithdrefnau diogelu a gwyddant y bydd yr arweinwyr yn ymateb i unrhyw bryderon a leisiant. Mae gweithdrefnau ar gyfer cofnodi rhoi meddyginiaeth, damweiniau, digwyddiadau, ac anafiadau sydd eisoes yn bodoli. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf. Yn ystod yr ymweliad, buom yn trafod storio meddyginiaeth yn briodol. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod y plant a'r staff yn ymwybodol o'r drefn i'w dilyn os bydd angen iddynt adael yr adeilad. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal pan fydd plant newydd yn mynychu fel eu bod nhw hefyd yn ymwybodol o'r weithdrefn.

Mae'r staff yn rhoi trefn ar waith i helpu i gefnogi a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r byrddau'n cael eu glanhau cyn eu defnyddio ar gyfer byrbrydau ac anogir y plant i ymolchi eu dwylo trwy gydol y sesiwn. Mae'r plant yn dod â bwyd o'r cartref a hysbysir rhieni o'r angen i gynnwys pecyn iâ gan ei fod yn cael ei storio ar dymheredd ystafell. Mae'r staff yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach trwy fynd allan i'r awyr agored.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i gefnogi a hybu ymddygiad y plant, gan deilwra eu hymatebion i anghenion a galluoedd gwahanol oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant. Gwelsom yr arweinwyr yn defnyddio technegau tynnu sylw yn ogystal â rhoi canmoliaeth ac anogaeth i gynorthwyo ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar lle caiff chwarae a llesiant y plant eu hyrwyddo'n dda. Mae'r staff yn garedig, yn ddeallus ac yn chwareus gyda'r plant. Maent yn angerddol am fod yn hwyluswyr chwarae a mwynhad da i'r plant yn ystod eu gwyliau i ffwrdd o'r ysgol. Mae'r staff yn caniatáu i'r plant gael dewis rhydd o ran sut maent yn treulio eu hamser ac yn cynllunio a chynnig gweithgareddau addas. Mae'r rhain yn galluogi'r plant i gael ystod o brofiadau chwarae a dysgu. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau'n llwyddiannus i alluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau a pharhau i gymryd rhan. Er enghraifft, trefnir gwibdaith wythnosol ynghyd â gweithgaredd crefft dyddiol. Hyrwyddir y Gymraeg yn frwd yn y clwb.

## Yr Amgylchedd Da

Mae’r amgylchedd yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae’r adeilad yn gwbl ddiogel, y tu mewn a’r tu allan, ac yn caniatáu digon o ryddid i’r plant. Mae’r staff yn wyliadwrus ac yn goruchwylio’r plant yn briodol ar bob adeg. Mae’r cymarebau staff i blant yn uwch na’r rhai sy’n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion pob plentyn yn llwyddiannus bob amser. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle yn ogystal ag ar gyfer gweithgareddau a gwibdeithiau. Mae’r cofrestrau’n cofnodi’r amseroedd y mae’r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae’r arweinwyr yn cadw cofnodion o’r holl ymwelwyr â’r lleoliad. Mae’r cofnodion yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar waith ar gyfer yr adeilad. Cynhelir ymarferion gadael os bydd tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff a’r plant yn gyfarwydd â’r broses.

Mae’r clwb wedi’i leoli o fewn yr ysgol, ond ar y cyfan mae’r adnoddau ar ei gyfer yn cael eu gosod cyn pob sesiwn a’u rhoi i gadw wedi hynny. Mae’n ofod addas gyda digon o le i blant chwarae a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Er enghraifft, roedd y plant yn chwarae gemau pen bwrdd ac yn cymryd rhan mewn chwarae rôl, yn ogystal ag adeiladu eitemau o Lego. Defnyddir y tu allan yn dda, ac mae’r gwasanaeth yn gallu defnyddio’r rhan fwyaf o ardaloedd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cae mawr ac iard agored ynghyd ag offer chwarae sefydlog, yr oedd y plant yn eu mwynhau gan eu bod yn gallu cydbwyso a dringo arnynt. Mae’r safle yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda ac mewn cyflwr addurnol da. Mae amserlenni glanhau dyddiol ar waith, ac mae ardaloedd y toiledau yn lân ac yn rhoi preifatrwydd addas i’r plant.

Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da ar gael i’r plant, ac mewn niferoedd digonol. Mae’r amgylchedd wedi’i osod allan gan y staff i wneud y mwyaf o archwilio annibynnol. Mae’r plant yn rhydd i ddewis eu gweithgareddau mewn lle tawel sydd wedi’i drefnu’n dda. Mae digon o adnoddau megis deunyddiau celf a chrefft i’r plant gael amrywiaeth a dewis da. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd ac yn hawdd eu gweld, sy’n galluogi’r plant i ddewis yn hawdd yr hyn y maent eisiau chwarae ag ef. Mae’r dodrefn o faint a dyluniad addas ar gyfer ystod oedran y plant.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y cylch chwarae ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'r gofal y maent yn eu cynnig. Mae gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei hadlewyrchu yn y datganiad o ddiben. Mae polisïau a gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu'r lleoliad ac arferion cyfredol ac mae'r rhain ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg, ond nid oes cofnod ar waith i ddangos pryd y maent wedi eu hadolygu neu eu diwygio. Mae'r staff yn gweithio'n gyson yn unol â'r polisïau a gweithdrefnau i gefnogi rhediad didrafferth y lleoliad. Mae cofnodion gwybodaeth am y plant yn gyflawn ar y cyfan ac yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol.

Mae'r plant a'r rhieni yn elwa ar wasanaeth sydd wedi ymrwymo i wella canlyniadau i'r plant. Ceir adroddiad ansawdd gofal cynhwysfawr sy'n manylu ar yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, a'r hyn y maent am ei wella. Mae'r arweinwyr yn cynnal yr adolygiad hwn yn flynyddol yn ôl yr angen, ac yn ystyried safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda i sicrhau eu bod yn darparu gofal o ansawdd da ac roeddent yn siarad yn angerddol am yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn ei chael ar y plant a'u teuluoedd, a oedd yn amlwg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y cylch chwarae yn rheoli'r staff yn dda. Mae ganddynt raglen recriwtio gadarn ar waith sy'n sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda gan staff sydd â chymwysterau a hyfforddiant addas. Cesglir yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer ffeiliau'r staff. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael cyfarfodydd a chyfleoedd rheolaidd i siarad â phobl sy'n rhedeg y cylch chwarae er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a nodi hyfforddiant. Mae'r rheolwyr yn effeithiol wrth oruchwylio'r staff, rheoli eu hamser a blaenoriaethu gweithgareddau'n ymatebol i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Gwelsom fod y staff yn drefnus a gwelsom fod hyn yn caniatáu iddynt aros yn ddigynnwrf wrth ddarparu gofal. Cadarnhaodd y staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad yn fawr: *'Rwyf wrth fy modd yma.'* Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, gan wybod y gallant fynd at arweinwyr am help neu gefnogaeth os oes angen.

Mae cydberthnasau cadarnhaol gyda theuluoedd a'r gymuned yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad hwn. Mae'r staff a'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n teimlo y gallant fynd atynt ar unrhyw adeg, a gwelsom fod hyn yn wir. Buom yn siarad ag un rhiant yn ystod yr ymweliad a dywedodd, *'Mae'r staff yn anhygoel. Mae fy mhlentyn wrth ei fodd yn dod yma.'*
Cawsom adborth cadarnhaol iawn yn dilyn yr ymweliad arolygu: *'Mae fy mhlentyn wrth ei fodd yn mynd i'r clwb yn ystod y gwyliau. Mae'r staff yn groesawgar a gofalgar. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn hwyl ac yn rhoi cyfleoedd i'm plentyn ddatblygu sgiliau gwahanol.'*

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Cadw cofnod o adolygiadau o bolisïau a gweithdrefnau

A2: Sicrhau bod yr holl ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau'n llawn ac yn eu lle

A3: Storio meddyginiaeth yn briodol

| Crynodeb o’r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 07/10/2022